

TGAU



TGAU CBAC
CYMRAEG IAITH

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

Addysgu o 2015



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Cynnwys

	Tudalen
PAPURAU ARHOLIAD ENGHREIFFTIOL	
Uned 1 - Llafar	
Tasg 1: Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil	5
Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp)	
Sbardun Enghreifftiol 1	7
Sbardun Enghreifftiol 2	11
Uned 2	
Deunydd Darllen	15
Papur Enghreifftiol	21
Uned 3	
Deunydd Darllen	37
Papur Enghreifftiol	43
CYNLLUNIAU MARCIO	
Uned 1 - Llafar	59
Uned 2	63
Uned 3	73



TGAU

Cymraeg Iaith

Uned 1 – Llafar

Tasg 1: Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil

Ar gyfer y dasg hon, dylai ymgeiswyr gael y cyfle i gymryd rhan yn unigol gan gyflwyno gwybodaeth ar unrhyw agwedd neu agweddau yn ymwneud ag **un** o'r themâu canlynol:

1. Cymru
2. Hamdden
3. Byd Gwaith
4. Byd Gwyddoniaeth/Technoleg
5. Dinasyddiaeth

Mae gan ymgeiswyr un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg.

Caniateir i ymgeiswyr ymchwilio i'r pwnc try ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau, llyfrau cyfair, pamffledi gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Ni ddylid caniatáu sgrïptio'r drafodaeth. Pwysleisir nad tasg ddarllen mo hon, ond cyflwyniad llafar wedi ei baratoi gan yr ymgeisydd.

Gellir defnyddio technoleg gwyboeth e.e. PowerPoint fel adnodd i gynorthwyo'r cyflwyniad yn unig.

Dylai athrawon gadw unrhyw bwyntiau bwled neu gyflwyniad PowerPoint ar ddiwedd y cyflwyniad. Ar ddiwedd y cyflwyniad, caniateir i ymgeiswyr eraill ofyn cwestiynau.

Bydd cyflwyniad unigol yn parhau rhwng 5 a 7 munud a gall gynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa am y cyflwyniad.



TGAU

Cymraeg Iaith

Uned 1 – Llafar

Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp)

Sbardun Enghreifftiol (1)

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Dylech ddarllen tudalennau 16 – 17 y fanyleb am gyngor manwl ynglŷn â gweinyddu'r asesiad diarholiad.
- Gellir dangos y symbyliad i'r ymgeiswyr wythnos cyn iddynt gyflawni'r dasg. Bydd yn eu cynorthwyo i feddwl am syniadau am y pwnc dan sylw ond gallant hefyd gyfeirio at faterion perthnasol eraill na chyfeirir atynt yn y symbyliad.
- Dylai'r athro/athrawes gasglu'r symbyliad ar ddiwedd pob cyfnod paratoi.
- Caniateir i ymgeiswyr ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau neu wrando ar y newyddion.
- Dylai ymgeiswyr fynegi eu barn am y pwnc gydag aelodau eraill y grŵp gan roi rhesymau dros eu barn.
- Gall yr ymgeiswyr sôn am brofiadau personol neu brofiadau eraill os ydynt yn berthnasol i'r drafodaeth.
- Ni ddylid caniatáu sgriptio'r drafodaeth – disgwylir trafodaeth naturiol.
- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio **nodiadau bras yn unig** gyda'r sbardun pan fyddant yn cyflawni'r dasg.
- Dylai'r drafodaeth gymryd tua 10 munud.

Diwedd y gân yw'r geiniog

Arian = Hapusrwydd

Ni all arian brynu iechyd



Mae edrych yn dda yn costio'n ddrud. Prisiau trin gwallt ar gyfartaledd:

Torri gwallt	£50
Torri a lliwio	dros £100

Nid yw arian yn tyfu ar goed!



Mae pobl yn cystadlu i gael y pethau gorau. Mae'r pethau gorau'n costio'n ddrud.

Addysg breifat-gwell addysg am bris?

Does neb yn ofalus gydag arian y dyddiau hyn. Cael, cael, cael yw popeth. Beth ddigwyddodd i roi arian yn y banc at y dyfodol?

Mae nifer o fyfyrwyr yn gweithio amser llawn er mwyn ennill digon o arian i dalu am eu haddysg a chostau byw. Gallai hyn wneud drwg i'w gwaith academaidd.

Dyled Myfyrwyr:
£26,100 ar gyfartaledd



Beth yw eich barn chi?

A YDYM NI'N RHY DDIBYNNOL AR ARIAN?

Trafodwch rai o'r pwyntiau hyn:

- Ydy bod yn gyfoethog yn golygu eich bod yn hapus?
- Ydy arian yn arwain at annhegwch?
- Dydy plant ddim yn deall gwerth arian.

Cofiwch y medrwch gyfeirio at bethau perthnasol eraill nad ydynt ar y daflen hon hefyd.

Mae cyfrifoldeb ar bobl gydag arian i helpu pobl dlawd.

Dydy hi ddim yn deg fod rhai pobl yn ennill mwy o bres o fudd-daliadau nag wrth weithio.

Mae'r I Phone 6 yn costio £539. Does dim synnwyr mewn talu cymaint am ffôn! Mae gan rai pobl fwy o arian na synnwyr!

Mae plant mewn ardaloedd o dlodi yn fwy tebygol o gael problemau iechyd.

Golwg360

PRISIAU TAI YN CODI ROEDD PRISIAU TAI WEDI CODI 11.7% RHWNG GORFFENAF 2013 A GORFFENAF 2014. PRIS CYFARTALOG TŶ YM MHRYDAIN YW £272,000. SUT YN Y BYD GALL POBL IFANC Fforddio prynu tai fel ag y mae pethau?

DWEUD CELWYDD WRTH YSWIRIO CAR

Mae'n debyg fod 180,675 o bobl yn dweud celwydd wrth roi gwybodaeth wrth brynu yswiriant car. Maent yn gwneud hyn er mwyn arbed arian. Yn y pen draw, mae'r celwydd yn golygu fod cost yswiriant car yn cynyddu i bawb arall.

Mae pobl heb arian yn fwy tueddol o gael eu bwlio. Fedra i ddim fforddio'r *trainers* ffasiynol diweddaraf na'r dillad labeli drud. Rydw i'n cael fy mwlio am hynny.

Mae popeth yn cau oherwydd diffyg arian - ysgolion, capeli, siopau,

Prynu'n ail law

Pam mae angen prynu popeth yn newydd? Beth am feddwl am y syniadau canlynol i arbed arian?

MAE POBL IFANC HEDDIW YN TALU AM FYWYD BRAF POBL DROS Y DEGAUDAU DIWETHAF!

- Gweithio'n hirach
- Cyfraniadau pensiwn yn uwch
- Taliadau pensiwn yn is
- Cyflogau'n is
- Llai o sicrwydd mewn swyddi
- Costau byw yn uwch
- Prisiau tai yn cynyddu

- Prynu ar e-bay
- Stondin gwisg ysgol ail law yn y ffeiriau ysgol
- Cyfnewid dillad gyda ffrindiau
- Prynu o sêl cist car
- Prynu o siop elusen a rhoi'ch arian i achos da yr un pryd
- Defnyddio gwefannau ffeirio/cyfnewid



TGAU

Cymraeg Iaith

Uned 1 – Llafar

Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp)

Sbardun Enghreifftiol (2)

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Dylech ddarllen tudalennau 16 – 17 y fanyleb am gyngor manwl ynglŷn â gweinyddu'r asesiad diarholiad.
- Gellir dangos y symbyliad i'r ymgeiswyr wythnos cyn iddynt gyflawni'r dasg. Bydd yn eu cynorthwyo i feddwl am syniadau am y pwnc dan sylw ond gallant hefyd gyfeirio at faterion perthnasol eraill na chyfeirir atynt yn y symbyliad.
- Dylai'r athro/athrawes gasglu'r symbyliad ar ddiwedd pob cyfnod paratoi.
- Caniateir i ymgeiswyr ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau neu wrando ar y newyddion.
- Dylai ymgeiswyr fynegi eu barn am y pwnc gydag aelodau eraill y grŵp gan roi rhesymau dros eu barn.
- Gall yr ymgeiswyr sôn am brofiadau personol neu brofiadau eraill os ydynt yn berthnasol i'r drafodaeth.
- Ni ddylid caniatáu sgriptio'r drafodaeth – disgwylir trafodaeth naturiol.
- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio **nodiadau bras yn unig** gyda'r sbardun pan fyddant yn cyflawni'r dasg.
- Dylai'r drafodaeth gymryd tua 10 munud.

Pleidlais i mi?

Beth yw eich barn chi?

A DDYLAI POBL IFANC 16 AC 17 OED GAEL PLEIDLEISIO?

Trafodwch rai o'r pwyntiau hyn:

- Ydy pobl ifanc 16 ac 17 oed yn ddigon aeddfed i gael bwrw pleidlais yn annibynnol?
- Ydy pobl ifanc 16 ac 17 oed yn deall digon am wleidyddiaeth i allu pleidleisio'n ddoeth?
- Mae'n bryd i bobl ifanc gael llais yn yr hyn sy'n eu heffeithio nhw.

Cofiwch y medrwch gyfeirio at bethau perthnasol eraill nad ydynt ar y daflen hon hefyd.

Yn ôl pŵl piniwn gan Golwg360 mae 78% o'r rhai a holwyd o blaid gadael i bobl ifanc 16 ac 17 oed fwrw pleidlais, 19% yn erbyn a 3% ddim yn siŵr.

golwg360

Roedd 109,533 o bobl ifanc 16 ac 17 oed wedi eu cofrestru i fwrw pleidlais yn refferendwm yr Alban. Mae hyn yn profi bod gan y garfan hon ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth.

Yr economi oedd yn pryderu'r rhan fwyaf o bobl ifanc 16 ac 17 oed a bleidleisiodd yn y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban. Yr economi oedd hefyd yn pryderu llawer iawn o'r pleidleiswyr hŷn.

Nid yw pobl ifanc 16 ac 17 oed yn ddigon aeddfed i bleidleisio'n annibynnol. Mae ffrindiau, rhieni a'r cyfryngau yn dylanwadu gormod arny'n nhw.

Yn y pleidlais ar annibyniaeth i'r Alban roedd gan 40% o'r rhai 16 ac 17 oed farn wahanol i'w rhieni. Mae hyn yn dangos eu bod yn gallu meddwl yn annibynnol.

Mae pobl ifanc 16 oed yn ddigon hen i:

- adael ysgol
- cael swydd
- priodi
- talu trethi
- ymuno â'r fyddin

Pam na fedrwn ni fwrw pleidlais felly?



Disgyblion o Ysgol Bro Pedr yn siarad ar y BBC ac yn dweud nad yw pobl ifanc yn cael digon o wersi gwleidyddiaeth ac felly ddim yn deall digon i bleidleisio'n ddoeth.

Cyn refferendwm annibyniaeth yr Alban cafwyd dadl ar y teledu gyda nifer fawr o bobl ifanc yn cymryd rhan. Roedd eu cyfraniadau yn profi eu bod yn deall digon am wleidyddiaeth ac roeddent yn gofyn cwestiynau deallus.

Does gan bobl ifanc 16 ac 17 oed ddim diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Dydy gwleidyddiaeth ddim yn effeithio ar eu bywydau.

Yn yr etholiad cyffredinol yn 2010 dim ond 44% o'r rhai dan 24 wnaeth fwrw pleidlais. Mae angen gwneud gwleidyddiaeth yn berthnasol i bobl ifanc er mwyn iddyn nhw fod â rheswm dros bleidleisio.

Mae polisïau addysg, ffioedd prifysgolion, trafniadaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae'n iawn iddyn nhw gael llais.

Mae pobl ifanc 16 oed yn cael pleidleisio yn:

- Ynys Manaw
- Guernsey
- Jersey
- Brasil
- Ecwador

Mae yna dros 1.5 miliwn o bobl ifanc 16 ac 17 oed ym Mhrydain.

Mae gan 85% o ysgolion Gyngor Ysgol

Mae Dinasyddiaeth yn rhan orfodol o'r cwricwlwm er 2002. Mae trafod gwleidyddiaeth a materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yn beth cyffredin mewn ysgolion.

20,000 o bobl ifanc ar gynghorau ieuencid ar draws Prydain.

Beth sy'n digwydd i 'Draig Ffyнци', Cynulliad Pobl Ifanc Cymru?

Penderfynu ar fy nyfodol

fy hun



TGAU

Cymraeg Iaith

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

DARN DARLLEN 1


Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf



- David Lloyd George yn galw am greu “Byddin Gymreig”
- 100,000 o Gymry yn ymuno â'r fyddin erbyn mis Mai 1915
- 272,000 o Gymry wedi ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf
- 100,000 o'r 272,000 yn siarad Cymraeg
- 40,000 o filwyr o Gymru yn cael eu lladd yn y Rhyfel Mawr
- 4,000 o ddynion o bum bataliwn Cymreig yn cael eu lladd ym mrwydr Coed Mametz
- cofeb yng Nghoed Mametz heddiw – draig goch fawr i gofio am y milwyr o Gymru gafodd eu lladd a'r rhai o Gymru fu'n ymladd

DARN DARLLEN 2

Wrth nodi can mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf mae pobl yn cofio am y rhai gafodd eu lladd. Mae'r siart isod yn dangos, i'r mil agosaf, sawl milwr a laddwyd o saith o'r gwledydd fu'n rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf.







DARN DARLLEN 3

Mae'r wybodaeth isod o Wikipedia yn dangos sawl milwr fu farw yn Rhyfel Irac yn y ganrif hon.

 America	4,487	 Rwmania	3
 Prydain	179	 Awstralia	2
 Yr Eidal	33	 Estonia	2
 Gwlad Pwyl	23	 Yr Iseldiroedd	2
 Wcrain	18	 Gwlad Thai	2
 Bwlgaria	13	 Azerbaijan	1
 Sbaen	11	 Y Weriniaeth Tsiec	1
 Denmarc	7	 Fiji	1
 El Salvador	5	 Hwngari	1
 Georgia	5	 Kazakhstan	1
 Slofacia	4	 De Korea	1
 Latvia	3		
		CYFANSWM: 4,804	

Darn Darllen 4

A wyddoch chi?

Cafodd llawer o'r triniaethau sy'n cael eu defnyddio ym maes iechyd heddiw eu datblygu yn y Rhyfel Byd Cyntaf.		
Y driniaeth	Manylion	
Y sblint	Ar ddechrau'r rhyfel dim ond 20% o'r milwyr oedd yn torri'r ffemwr (neu asgwrn y glun) oedd yn byw. Erbyn 1917 roedd y nifer oedd yn marw wedi gostwng i 8% diolch i waith Cymro o'r enw Hugh Owen Thomas. Mae sblint Thomas yn cael ei ddefnyddio heddiw i leihau poen a gwaedu o'r goes.	
Pelydr X	Cafodd pelydr X ei ddarganfod yn 1895 a daeth yn rhywbeth pwysig iawn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf wrth i feddygon geisio achub bywydau milwyr. Roedd meddygon yn gallu defnyddio pelydr X i weld bwledi, shrapnel neu esgyrn wedi eu torri. Mae pelydr X yn ddull cyffredin heddiw o ganfod beth sy'n bod ar glaf.	
Breichiau a choesau artiffisial	Collodd 41,000 o filwyr Prydeinig fraich neu goes oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd safon breichiau a choesau artiffisial wedi gwella'n sylweddol erbyn 1918. Mae milwyr yn rhyfeloedd y ganrif hon, yn Irac ac Afghanistan, hefyd yn colli breichiau a choesau oherwydd bomiau sy'n cael eu gosod ar ochr ffyrdd. Mae'r milwyr hyn yn cael aelodau artiffisial sy'n eu helpu i fyw bywyd normal.	
Trallwysiad gwaed	Fe arbrofodd meddygon â gwahanol ddulliau o drallwysio gwaed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan ddarganfod cyffuriau fel <i>sodiwm sitrad</i> a <i>heparin</i> fyddai'n atal y gwaed rhag ceulo. Roedd hyn yn golygu bod gwaed yn gallu cael ei storio cyn ei roi i glaf. Roedd hyn yn fwy diogel o lawer na rhoi gwaed yn syth o un person i'r llall. Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio heddiw i achub bywydau miloedd o bobl.	

Darn Darllen 5

Ysgol Gyfun Gymraeg

Bryn Tawe



Cartref

Newyddion

Calendr

Gohebiaeth

Prosbectws

Cysylltwch

Newyddion

Nos Sul, 28 Mehefin – Unwaith eto eleni, aeth aelodau blwyddyn 9 a 10 ar ymweliad i'r ffosydd. Roedd cyffro mawr wrth i bawb gyrraedd Penllergaer ar Fehefin 28ain.

Dydd Llun, 29 Mehefin – Ar ôl cyrraedd Dover yn gynnar, llwyddodd y grŵp i ddal fferi gynharach a chyrraedd Albert (Ffrainc) a'r tywydd yn odidog. Tua hanner dydd dechreuom ar daith tair awr o amgylch lleoliad brwydr y Somme. Uchafbwynt y Somme oedd y cyfle i fynd i goedwig brwydr 'Mametz Wood'. Roedd rhai wrth eu bodd yn anturio trwy'r coed ac eraill yn sgrechian fel eu bod wir yng nghanol y frwydr ei hun. Ar ôl gweld sawl cofeb a rhyfeddu at faint cofeb Thiepval aethom yn ôl i Albert i ymweld ag amgueddfa danddaearol 'Musée des Abris' lle'r oedd yn braf, am unwaith, cael cilio o'r haul! Ymlaen i'r hostel, heddwch ac ymlacio am y noson.

Dydd Mawrth, 30 Mehefin – Ar ôl codi'n gynnar a chael brecwast, i fwrdd â ni ar daith tair awr o amgylch lleoliad brwydr Ypres. Roedd y tywyswr yn arbennig, yn llawn brwdfrydedd a hiwmor. Cawson ni gyfle i weld sawl mynwent ond yr uchafbwynt oedd gweld bedd Hedd Wyn, darllen cerdd a gosod cerdyn iddo gan yr ysgol. Crëwyd naws arbennig wrth y bedd wrth i bawb ymfalchïo yn ein hunaniaeth. Yn y prynhawn aethom i amgueddfa ryngweithiol 'In Flanders Fields', Ypres, ac yna ymlaen i 'Hill 62 – Sanctuary Wood' a gweld y ffosydd gwreiddiol. Y noson honno aethom i'r Menin Gate ar gyfer 'The last Post' a gwario llawer o arian yn y siop siocled gyfagos. Roedd y disgyblion (a'r athrawon!) wrth eu bodd yn boddi yn y siocled ac roedd sawl bag llawn iawn ar y bws ar y ffordd yn ôl i'r gwesty.

Dydd Mercher, 1 Gorffennaf – Ar ôl treulio bore yn Bruges yn siopa a bwyta, aethom ymlaen i 'La Coupole', hen faes lansio rocedi V2 yr Ail Ryfel Byd. Teithiom i Calais a chyrraedd adref yn brydlon, wedi blino'n lân a mwynhau mas draw.



DARN DARLLEN 6

Dyma ran o'r nofel Rhagom gan Angharad Tomos. Yn yr addasiad hwn mae'n disgrifio bywyd milwyr Rhyfel Byd Cyntaf yn y ffosydd.

Mi ddaeth llythyrau yn hwyr yn y p'nawn, a chododd hyn galon pawb. Cafodd Gwilym llythyr gan ei dad yn adrodd hanes Caernarfon a sut oedd pethau adref. Llythyr gan y gweinidog oedd y llall. ond roedd yn dda ei gael. Byddai'r rhai oedd wedi bod yn ffodus i gael llythyr yn rhannu eu newyddion gyda'r rhai llai ffodus. Gwrandawodd Gwilym arnynt. Roedd eu sgwrs mor gyffredin a naturiol fel ei bod yn anodd credu eu bod mewn ffos yn Ffrainc.

Ni thywyllodd tan wedi naw y noson honno. I geisio cael cymaint o wres â phosib, closiodd y bechgyn at ei gilydd i gysgu. Roedd tua hanner dwsin ohonynt yn swatio, pan ddechreuodd rhywun anesmwytho.

'Hoi! Aros yn llonydd wnei di?'

'Methu stopio cosi ydw i,' meddai llais Alwyn. 'Dim chwain ydi'r broblem, 'nhraed i sydd wedi chwyddo.'

*Bwgan ddaru godi i'w helpu a pherswadiodd Alwyn yn y diwedd i dynnu ei esgidiau a'i sanau, ac yng ngolau matsien edrychodd arnynt. Roedd un droed wedi chwyddo'n ddrwg, ac roedd y croen yn goch a thyner. Roedd traed gwael yn broblem gyson efo'r milwyr. Roedd sefyll am hydoedd mewn ffosydd efo dŵr at eu pennau gliniau yn bownd o wneud drwg i draed unrhyw un.

Digon ysbeidiol oedd cwsg y bechgyn, a'r oerfel oedd y gelyn gwaethaf. Mewn amser, fe ddeuent i arfer â'r llygod a'r chwain, ond arhosodd yr oerfel yn eu hesgyrn drwy gydol y rhyfel.

Deffrowyd y milwyr i gyd gan sŵn ffrwydro annaeorol. Neidiodd pob un ar eu traed yn syth a gafael yn eu gynnau. Roedd negeswyr yn rhuthro'n ôl ac ymlaen yn wyllt, ond roedd y rhan fwyaf o'r milwyr yn gwbl ddi-glem. Gwisgodd pawb eu helmedau a chael eu gynnau yn barod, ond doedd ganddynt mo'r hawl i saethu heb awdurdod.

'Stand to!' Safodd pawb ond y rhai ar patrôl yn erbyn y wal ac eglurodd Henderson (y swyddog) fod yna ffrwydrad wedi taro'r ffos ymhellach yn ôl. Roedd peth difrod wedi ei wneud a rhai wedi eu clwyfo. Y dacteg orau fyddai cael dau set o batrôls wrth gefn. Gallai gweddill y milwyr orffwyso. Wedi'r fath gythrwfl fodd bynnag, doedd dim modd ymlacio, felly aros yn eu hunfan wnaeth y rhan fwyaf nes i'r saethu dawelu.

Ddwy awr yn ddiweddarach cafodd yr hogia glywed i weddillion Alwyn, sef ei gap a'i fathodyn, gael eu canfod mewn ffos. Dyna lle trawodd y bom. Mae'n rhaid fod Alwyn wedi ei ladd yn syth.

Colli Alwyn barodd y twll cyntaf yn rhwydwaith y ffrindiau, ond honno oedd y golled waethaf. Dyma'r tro cyntaf iddynt sylweddoli beth oedd perygl gwirioneddol. Os gallai ddigwydd i Alwyn, un o'r anwylaf yn eu plith, gallai ddigwydd i unrhyw un ohonynt.

**Llysenw un o'r milwyr yw Bwgan.*



TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

2 awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Deunydd Darllen

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

- Adran A – tua 10 munud yn darllen
- tua 50 munud yn ateb y cwestiynau
- Adran B1 – tua 10 munud
- Adran B2 – tua 10 munud yn cynllunio
- tua 40 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ADRAN A (Darllen): 30 marc

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Rhyfel'. Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Darn Darllen 1

Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

A1. Faint o Gymry oedd wedi ymuno â'r fyddin erbyn mis Mai 1915? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

272,000

100,000

32,000

40,000

A2. Esboniwch pam mai draig goch a ddewiswyd fel cofeb yng Nghoed Mametz. [1]

.....
.....

Darn Darllen 2

Siart yn dangos nifer y marwolaethau mewn saith gwlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

A3. Sawl gwlad gollodd dros filiwn o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf? [1]

.....
.....

Darn Darllen 2 a 3

Siart yn dangos nifer y marwolaethau mewn saith gwlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a gwybodaeth o Wicipedia am nifer y marwolaethau yn y Rhyfel yn Irac.

- A4. Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [4]

	Cywir	Anghywir
Prydain gollodd y nifer mwyaf o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.		✓
Collodd Prydain fwy o filwyr yn ystod y rhyfel yn Irac nac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.		
Yr Almaen gollodd y nifer mwyaf o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.		
Mae cyfanswm y milwyr a gollwyd yn y rhyfel yn Irac yn fwy na chyfanswm y milwyr a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.		
Pedair gwlad gollodd un milwr yn ystod y rhyfel yn Irac.		

Darn Darllen 4

A wyddoch chi?

A5. Rhowch ddau reswm pam mae sblint Thomas yn cael ei ddefnyddio heddiw. [1]

.....
.....

A6. Tanlinellwch y gair sy'n dangos fod pelydr X yn cael ei ddefnyddio'n aml erbyn heddiw. [1]

Roedd meddygon yn gallu defnyddio pelydr X i weld bwledi, shrapnel neu esgyrn wedi eu torri. Mae pelydr X yn ddull cyffredin heddiw o ganfod beth sy'n bod ar glaf.

A7. Pam mae cyffuriau fel *sodiwm sitrad* a *heparin* yn bwysig? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

Maen nhw'n lleihau poen a gwaedu.

Maen nhw'n atal y gwaed rhag ceulo.

Maen nhw'n helpu pobl i gadw'n heini.

Maen nhw'n ceulo'r gwaed.

A8. Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl i egluro sut mae triniaethau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ein helpu ni heddiw. [3]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Darn Darllen 5

Blog Bryn Tawe

A9. Ydych chi'n meddwl bod blog Bryn Tawe yn llwyddo i annog darllenwyr i fynd ar daith debyg? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich safbwynt. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Darn Darllen 6

Detholiad o'r nofel *Rhagom*

A10. Pam wnaeth y bechgyn glosio at ei gilydd? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

- er mwyn rhannu eu newyddion
- i geisio cynhesu er mwyn gallu cysgu
- am eu bod wedi clywed ffrwydrad
- i warchod ei gilydd wrth ymosod ar y gelyn

- A11. Yn eich geiriau eich hun nodwch pam mae Gwilym yn ei chael hi'n anodd credu eu bod yng nghanol rhyfel yn Ffrainc. [1]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Darn Darllen 5 a 6

Blog Bryn Tawe a detholiad o'r nofel *Rhagom*

- A12. Cymharwch brofiadau disgyblion Bryn Tawe ar eu taith ysgol yn narn darllen 5 â phrofiadau'r milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn narn darllen 6. Cofiwch gyfeirio at y darnau darllen er mwyn cefnogi eich sylwadau. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

A13. **Golygu (5 marc)**

- (i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol.

Hyd yn oed ar ôl darllen y stori ddwy waith...

- roedd Catrin yn ei deall
 doedd Catrin ddim yn ei deall
 mae Catrin yn ei deall yn well
 bydd Catrin yn ei deall [1]

- (ii) Nodwch pa air sydd ar goll o'r frawddeg a ganlyn drwy roi ✓ yn y blwch priodol.

Mwynhaodd Elin y parti _____ er nad oedd wedi edrych ymlaen ato.

- yfory
 nos yfory
 neithiwr
 erioed [1]

- (iii) Nodwch pa ddau air ddylai lenwi'r bylchau yn y frawddeg a ganlyn drwy roi ✓ yn y blwch priodol:

Roeddwn yn _____ o weld fy hen ffrind eto ond doedd hi ddim yn _____ i.

- drist... fy nghofio
 falch... fy neall
 falch... fy nghofio
 awyddus.....fy adnabod [1]

- (iv) Darllenwch y brawddegau a ganlyn ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

- a) Roedd hynny'n rhyfedd, meddyliodd.**
b) Rhewodd pan welodd beth oedd o'i flaen.
c) Sylwodd Cai fod y drws ar agor.
ch) Camodd i mewn i'r tŷ yn dawel.
d) Fyddai ei fam byth yn gadael y drws ar agor.

Pa frawddeg ddylai ddod gyntaf? (Nodwch y llythyren) _____ [1]

Pa frawddeg ddylai ddod olaf? (Nodwch y llythyren) _____ [1]

[5]

ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

- B1. (i) *Yn y dasg hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.*

Darllenwch y darn canlynol. Mae 3 gwall ynddo. Chwiliwch am y 3 gwall a chywirwch nhw ar y testun.

[3]

Diffodd y Goleuadau

Bydd goleuadau wedi ei diffodd ar draws Cymru heno i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd hyn yn digwydd i oleuadau ar draws y prifddinas, gan gynnwys y Senedd a Chastell Caerdydd.

Mae pobl yn cael eu hannog i ddiffodd eu goleuadau am 11 o'r

gloch heno ond gofynnir i nhw adael un golau neu gannwyll ynghynn fel symbol o obaith yn y tywyllwch.

- (ii) Dyma ran o lythyr swyddogol gafodd ei anfon gan brifathro at rieni'r ysgol. Ailysgrifennwch y darn mewn iaith ffurfiol a chywir.

Dwi'n ysgrifennu atat ti i ofyn am help i sicrhau bod dy blentyn yn cadw at y wisg ysgol swyddogol. Byddwn yn ddiolchgar pe baet ti'n cefnogi hyn. [2]

.....

.....

.....

[5]

- B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350 - 500 o eiriau.

[35]

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.

Naill ai

- (a) Ysgrifennwch erthygl i bapur newydd yn trafod ac yn esbonio eich syniadau am unrhyw agwedd/agweddau ar ryfel. Gallwch ysgrifennu am effeithiau rhyfel, canlyniadau rhyfel ac / neu ymateb pobl i ryfel.

Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

neu

- (b) Ysgrifennwch ddyddiadur/blog tri diwrnod yn sôn am ddewrder.

CYNLLUN

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

TEITL:

A large rectangular box containing 20 horizontal dotted lines for writing the title.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for writing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for writing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for handwriting practice.

TUDALENNAU YCHWANEGOL:

A large rectangular area containing 25 horizontal dotted lines, intended for writing answers.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for handwriting practice.



TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 3

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a
Pherswâd**

**Deunydd darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A
(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

Adran A (Darllen)

Darllenwch bob un o'r darnau yn ofalus ac atebwch y cwestiynau.

Darn Darllen 1

Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog, Gwynedd



Croeso i Ganolfan Hamdden Glaslyn. Yma yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn ein nod yw darparu adnoddau o safon uchel mewn awyrgylch groesawus a chyfeillgar. Rydym yn gobeithio gwneud hyn drwy gefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iachach. Nid oes rhaid i chi fod yn aelod i ddefnyddio'r Ganolfan. Fodd bynnag trwy ymaelodi byddwch yn derbyn gostyngiad ar yr holl weithgareddau. Bydd aelodaeth yn eich galluogi i ddefnyddio holl Ganolfannau Gwynedd gyda'r un cerdyn, sydd yn golygu y cewch fanteisio ar wahanol adnoddau ymhob Canolfan. Dewch a mwynhewch!

Prisiau Aelodaeth

- Oedolion = £15.80
- 16-24oed = £8.50
- Henoed = £8.50
- Oedolyn Anabl = £8.50
- <16oed = Am ddim

Adnoddau yn y ganolfan:

- Pwll nofio (25 metr), a phwll nofio bach
- Ystafell ffitrwydd
- Neuadd chwaraeon (4 cwrt badminton)
- 2 gwrt sboncen
- Sawna a chaban stêm,
- Ystafell gyfarfod
- Ystafell bwysau
- 4 cwrt tenis

Amseroedd agor:

Dydd Llun	7.30 - 21.00
Dydd Mawrth	7.30 - 21.30
Dydd Mercher	7.30 - 21.00
Dydd Iau	7.30 - 21.30
Dydd Gwener	7.30 - 19.30
Dydd Sadwrn	10.00 - 14.30
Dydd Sul	10.00 - 15.00

Polisi Mynychu Pyllau Nofio Gwynedd

- Rhaid i bob plentyn dan 8 oed fod yng ngofal person cyfrifol sydd o leiaf 16 oed tra yn y dŵr.
- Fe all pob person cyfrifol dros 16 oed, hebrwng hyd at ddau blentyn dros 5 ac o dan 8 oed.
- Fe all pob oedolyn cyfrifol dros 16 oed, hebrwng hyd at ddau blentyn dan 5 oed yn y pwll dysgu / pwll plant.
- O fewn y prif bwll rhaid i bob plentyn dan 5 oed fod yng ngofal person cyfrifol dros 16 ar raddfa un i un beth bynnag fo'r gallu nofio.
- Fe ddylai person cyfrifol dros 16 oed gadw llygaid manwl ar y plentyn dan 8 oed ac ni ddylai ei adael ar ben ei hun ar unrhyw gyfrif.
- I hybu diogelwch yn y pwll bob amser, fe ddylai'r gwarchodwr bywyd ddefnyddio ei synnwyr cyffredin i anfon nofwyr i fannau diogel o'r pwll sydd yn addas i'w gallu.

Darn Darllen 2

Gareth Bale



Dyddiad geni:	16 Gorffennaf yng Nghaerdydd
 Oed:	25
Cenedl:	 Cymru
Taldra:	1,83 m
Ynaelodo'r tîm ers:	1 Medi 2013
Cytundeb hyd:	30 Mehefin 2019
Clwbpresennol:	Real Madrid
Safle:	Asgell dde
Asiant:	Stellar Football Ltd
Pris ar y farchnad:	£86m
Chwaraewr cenedlaethol presennol:	 Cymru
Cyflog Gareth Bale gyda Real Madrid:	£15 miliwn

Darn Darllen 3

Pêl-droedwyr yn cael gormod o arian?

• £2.5 biliwn	yn cael ei dalu am hawliau teledu yr Uwch Gynghrair
• £30.8 miliwn	Chelsea yn talu hyn am Andriy Schevenko yn 2006
• £640,000	Cyflog cyfartalog pêl-droedwyr yr Uwch Gynghrair yn 2009
• £100,000	Y swm y mae perchennog tocyn tymor yn ei wario mewn 52 mlynedd

Beth yw eich barn?

Blog 1	Blog 2
<p><i>Yn bersonol dw i'n credu bod pêl-droedwyr yn cael eu talu ormod (rhai yn ennill dros £250,000 yr wythnos !) am gicio pêl i rwyd, pan mae milwyr bob dydd yn colli eu bywydau yn amddiffyn eu gwlad a'u pobl, llawfeddygon yn achub bywydau, pobl yn creu cyffuriau a meddyginiaethau newydd i drin cancr, pobl yn gwneud darganfyddiadau sy'n newid bywydau a phobl sy'n codi arian at elusennau fel y gall pobl gael gwell bywyd, ac maen nhw i gyd yn cael llawer, llawer llai na pêl-droedwyr!! Dylai pobl feddwl beth yw eu blaenoriaethau... ond dyna fo, fy marn bersonol i yw hynny!</i></p>	<p><i>Yn ddiweddar, mae llawer o drafod ar gyflogau uchel pêl-droedwyr. Mae hyn wedi codi'r cwestiwn ydyn nhw'n cael eu talu ormod. Mae'r swm enfawr mae pêl-droedwyr yn ei dderbyn yn ysbrydoliaeth fawr iddyn nhw berfformio ar eu gorau. O ganlyniad, mae gwell pêl-droed yn cael ei gynhyrchu i'r cefnogwyr ei weld. Dyma'r rhesymau pam nad yw'n wir fod pêl-droedwyr yn cael eu talu ormod.</i></p>

Ydyn nhw yn ei haeddu? Rhai rhesymau o blaid ac yn erbyn...

- Mae pêl-droedwyr yn hyfforddi'n hynod o galed bob wythnos a phob diwrnod weithiau.
- Maen nhw'n teithio o gwmpas y byd i chwarae gemau yma ac acw – mae hyn yn flinedig iawn.
- Mae cymaint o bobl yn dioddef oherwydd tlodi...mae'n anodd meddwl bod un person yn cael cymaint o arian.
- Mae'r swm enfawr mae pêl-droedwyr yn ei dderbyn yn ysbrydoliaeth fawr iddyn nhw berfformio ar eu gorau; mae gwell pêl-droed yn cael ei gynhyrchu i'r cefnogwyr ei weld.
- Mae pobl fel meddygon a pheirianwyr yn gwario llawer o arian i gael graddau, ac yn gweithio oriau hir, dim ond i gael eu talu mewn blwyddyn yr hyn mae rhai pêl-droedwyr yn ei gael mewn ychydig wythnosau.
- Mae pêl-droedwyr yn cael eu talu ormod am gicio pêl i rwyd, pan mae milwyr bob dydd yn colli eu bywydau yn amddiffyn eu gwlad.
- Maen nhw'n rhoi'r gorau i chwarae tua 30 oed fel arfer.
- Hyd yn oed yn ystod gwyliau rhaid iddyn nhw ymarfer.
- Gall eu gyrfa ddod i ben yn sydyn unrhyw amser oherwydd anaf.
- Does gan rai plant, wedi iddyn nhw fynd drwy ysgol uwchradd, mo'r arian i fynd i goleg.
- Dylai pêl-droedwyr a chlybiau wneud mwy i elusennau.
- Dylai pêl-droedwyr roi esiampl well i bobl ifanc!
- Mae Gareth Bale yn ennill mewn pedwar diwrnod yr hyn y mae Prif Weinidog Prydain yn ei ennill mewn blwyddyn.

Darn Darllen 4**Brasil: gwlad o ddau hanner**

Pwy sy'n mynd i ennill Cwpan y Byd? Ai Lloegr? Annhebygol, o wybod am gryfder y gwrthwynebwyr. Efallai mai Sbaen neu'r Almaen, y cewri o Ewrop aiff â hi . . . neu'r Ariannin. Mae'n bosib hyd yn oed y gall un o wledydd Affrica ennill am y tro cyntaf. Ond, mae'r arian mawr, fodd bynnag, ar y tîm cartref, Brasil.

Mae Brasil, fel gwlad, wedi ffoli ar bêl-droed. Caiff y gêm ei chwarae ym mhob man yno, ac nid yw'n syndod bod hyn wedi cynhyrchu criw talentog o chwaraewyr sydd wedi dod yn un o brif allforion y wlad. Yn y flwyddyn 2013, roedd 515 o bobl Brasil yn chwarae yn y gwahanol gynghreiriau cenedlaethol yn Ewrop. Mae ennill Cwpan y Byd, felly, wedi dod yn brif uchelgais gan wlad Brasil yn 2014.

Bydd mwy nag 14.5 biliwn doler UDA wedi cael eu gwario ar Gwpan y Byd erbyn y bydd y gêm gyntaf yn cael ei chwarae ar 12 Mehefin. Cafodd llawer o'r arian hwn ei wario ar adeiladu stadia newydd a diweddarau'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Mae buddsoddiad uchel hefyd wedi ei neilltuo ar gyfer ffyrdd, meysydd awyr, rhwydweithiau cyfathrebu ac isadeileddau eraill. Mae prosiectau adeiladu o fri gyda chynlluniau modern nodedig wedi cymryd lle'r '*favelas*' – hynny yw, y slymiau – yn llawer o'r prif ddinasoedd. Mae uchelgais mawr wedi arwain at fuddsoddiad mawr.

Fodd bynnag, mae gwedd arall i Frasil. Mae arbenigwyr ariannol yn dweud bod lefel y tlodi yn y wlad yn uwch o lawer na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig mewn gwlad sy'n meddu ar gymaint o adnoddau naturiol a diwydiant sydd wedi ei ddatblygu. Amcangyfrifir bod tua thraean o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi, yn arbennig ymhlith y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad y gogledd-ddwyrain. Yno, mae tua chwarter y plant dan bump oed yn dioddef o ddiffyg maeth. Ychydig sy'n gallu cael dŵr glân a charthffosiaeth, trydan a thechnoleg berthnasol. Pedair blynedd neu lai o ysgol mae llawer o'r plant yn ei gael. Nid yw'r uchelgais mawr wedi cyrraedd y rhannau hynny o'r wlad.

Gan fenthyca dywediad o'r byd pêl-droed, mae Brasil mewn gwirionedd, yn wlad o ddau hanner ac o ganlyniad mae'r rhai sy'n llai ffortunos wedi dechrau gwrthryfela. Gwelodd sawl un o'r prif ddinasoedd brotestiadau treisgar, gydag arweinyddion y gwrthdystiadau yn gofyn y cwestiwn,

'Os gallwn ni gael stadia pêl-droed safonol, pam na allwn ni gael tai preswyl safonol, gofal iechyd, glanweithdra ac addysg?'

Yr ateb syml a roddir, mae'n ymddangos, yw nad oes digon o arian i gyflawni'r ddau beth ar yr un pryd - ac mae angen talu am y Gemau Olympaidd yn 2016 eto! Mae'n ymddangos bod uchelgais mawr Brasil yn digwydd ar draul anghenion pobl dlotaf y wlad.

Darn Darllen 5



Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen

9 Gorffennaf 2014



Cefnogwyr Brasil yn methu credu'r peth

Neithiwr fe dorwyd sawl record – y fuddugoliaeth o 7-1 oedd y fwyaf erioed mewn rownd gynderfynol, ond hon hefyd oedd y golled fwyaf yn hanes Brasil. Fe ddigwyddodd hyn i neb llai nag enillwyr pum Cwpan y Byd, cewri' r byd pêl-droed rhyngwladol.

Dyma oedd cyfle Brasil i wneud yn iawn am 1950, pan oedd disgwyliadau mawr ar y tîm cartref i ennill Cwpan y Byd ond colli wnaethon nhw'n annisgwyl yn y gêm derfynol i Uruguay. Yn lle hynny, mae'r wlad yn deffro'r bore yma gyda mwy fyth o fwganod. Nid colled yn unig oedd hon, ond crasfa. Cywilydd llwyr! I wlad sydd heb gollu gêm gystadleuol gartref oddi ar 1975, roedd y sioc yn un gwbl anghyfarwydd - ac nid yn unig i bobl Brasil. Roedd y byd i gyd yn gegrwth wrth wyllo'r Almaenwyr yn eu rhwygo yn ddarnau, gyda'r gêm drosodd fel gornest o fewn llai na hanner awr a'r Brasiliaid yn gorfod dioddef awr arall o chwarae cyn y chwiban olaf.

I fod yn deg â'r Almaen, roedden nhw'n wych! Ar ôl deng munud agoriadol ychydig yn flêr gan y ddau dîm fe ffeindiodd Thomas Muller le yn y cwrnt cosbi o gic gornel a tharo ergyd syml i'r rhwyd. Os nad oedd hynny yn y sgript i Frasil, roedd gwaeth i ddod, a hanner ffordd drwy'r hanner cyntaf daeth y gwallgofrwydd. Pedair gôl mewn chwe munud, i gyd yn mynd i'r Almaen.

Roedd canlyniad y gêm wedi'i setlo cyn yr egwyl, a'r unig beth oedd ar ôl i'w benderfynu oedd maint y grasfa. Daeth Andre Schurrle ymlaen fel eilydd i'r Almaen ac ychwanegu dwy arall. Byddai'n greulon galw gôl hwyr Oscar i Frasil yn gôl gysur, achos doedd dim gronyn o hynny i'w gael i'r dynion mewn melyn wrth i'r chwiban olaf gael ei chwythu.



TGAU
CYMRAEG IAITH

UNED 3

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a
Pherswâd**

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

2 awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Deunydd Darllen

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Atebwch y **ddau** gwestiwn yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 10 munud yn cynllunio
Adran B1 – tua 25 munud yn ysgrifennu
Adran B2 – tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Adran A (Darllen): 30 marc

Darn Darllen 1

Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog, Gwynedd

A1. Beth yw'r pris aelodaeth i blant o dan 16 oed? [1]

.....

A2. Pa ddiwrnod mae'r Ganolfan Hamdden yn cau am 3 o'r gloch (15.00)? [1]

.....

A3. Pa rai yw manteision ymaelodi â'r Ganolfan Hamdden yn ôl y darn darllen?

Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r sylwadau cywir.

cael mynediad am ddim i'r Ganolfan	<input type="checkbox"/>
derbyn gostyngiad ar yr holl weithgareddau	<input type="checkbox"/>
cael pryd o fwyd blasus yn y caffi	<input type="checkbox"/>
defnyddio holl ganolfannau Gwynedd gyda'r un cerdyn	<input type="checkbox"/>
manteisio ar wahanol adnoddau ym mhob canolfan	<input type="checkbox"/>
cael gwersi nofio yn rhad ac am ddim	<input type="checkbox"/>
gallu defnyddio'r adnoddau ar nos Sul	<input type="checkbox"/>
dim myneidad i blant ar ddydd Sadwrn	<input type="checkbox"/>

[3]

A4. Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

O fewn y pwll rhaid i bob plentyn:

- dros 5 oed fod yng ngofal person cyfrifol dros 16 oed
- dan 5 oed fod yng ngofal person cyfrifol dros 16 oed
- dros 8 oed fod yng ngofal person cyfrifol dros 16 oed
- dan 16 fod yng ngofal ei rieni.

[1]

A5. Pam mae angen i'r gwarchodwr bywyd ddefnyddio ei synnwyr cyffredin i anfon nofwyr i fannau diogel o'r pwll sydd yn addas i'w gallu? [2]

.....

.....

Darn Darllen 2**Gareth Bale**

A6. Ers pryd y mae Gareth Bale yn chwarae i glwb Real Madrid? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

30 Mehefin 2019

1 Hydref 2013

1 Medi 2013

16 Gorffennaf 1990

A7. Ble ganwyd Gareth Bale? [1]

.....

A8. Beth yw cyflog blwyddyn Gareth Bale gyda Real Madrid? [1]

.....

Darn Darllen 3**Pêl-droedwyr yn cael gormod o arian?**

A9. Mae rhai o'r sylwadau sydd yn y darn darllen, yn amlwg naill ai o blaid cyflogau uchel pêl-droedwyr, neu yn eu herbyn. Dosbarthwch nhw o dan y penawdau **O blaid** ac **Yn erbyn** drwy roi ✓ yn y golofn gywir.

[5]

	O blaid (✓)	Yn erbyn (✓)
Mae pêl-droedwyr yn hyfforddi'n hynod o galed bob wythnos a phob diwrnod weithiau.		
Maen nhw'n teithio o gwmpas y byd i chwarae gemau yma ac acw – mae hyn yn flinedig iawn.		
Mae cymaint o bobl yn dioddef oherwydd tlodi...mae'n anodd meddwl bod un person yn cael cymaint o arian.		
Mae'r swm enfawr mae pêl-droedwyr yn ei dderbyn yn ysbrydoliaeth fawr iddyn nhw berfformio ar eu gorau.		
Mae pobl fel meddygon a pheirianwyr yn gwario llawer o arian i gael graddau, ac yn gweithio oriau hirion, dim ond i gael eu talu mewn blwyddyn yr hyn mae rhai pêl-droedwyr yn ei gael mewn ychydig wythnosau.		
Mae pêl-droedwyr yn cael eu talu ormod am gicio pêl i rwyd, pan mae milwyr yn colli eu bywydau bob dydd yn amddiffyn eu gwlad.		
Maen nhw'n rhoi'r gorau i chwarae tua 30 oed fel arfer.		
Hyd yn oed yn ystod gwyliau rhaid iddyn nhw ymarfer.		
Gall eu gyrfa ddod i ben yn sydyn unrhyw bryd oherwydd anaf.		
Dylai pêl-droedwyr roi esiampl well i bobl ifanc!		

Darn Darllen 4

Brasil: Gwlad o Ddau Hanner

A10. Beth yw barn yr awdur am obeithion Brasil o ennill Cwpan y Byd? Rhowch resymau dros eich ateb. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

Darn Darllen 5

Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen

A11. Pa air sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sioc wrth i'r byd wyllo'r Almaenwyr yn rhwygo tîm Brasil yn ddarnau? [1]

.....

Darn Darllen 4 a 5

**Brasil: Gwlad o Ddau Hanner
Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen**

A12. Mae Darn Darllen 4 a 5 yn sôn am Gwpan y Byd. Cymharwch y ddau ddarn gan ystyried:

- agwedd yr awduron at eu pwnc
- y modd y maen nhw'n cyflwyno'u gwybodaeth ac yn trafod y pwnc

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau. [10]

.....

.....

.....

.....

.....

ADRAN B (Ysgrifennu): 40 marc

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

B1. Ysgrifennwch araith i'ch cyd-ddisgyblion sydd yn dechrau meddwl am eu gyrfa yn y dyfodol, ar y testun:

Mae'n warthus bod pêl-droedwyr yn cael cyflogau mor uchel!

Gallwch roi eich barn o blaid/yn erbyn cyflogau uchel pêl-droedwyr ond dylech wneud ymdrech i roi rhesymau dros eich barn. [20]

Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.

Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.

CYNLLUN:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ARAITH:

A large rectangular box containing 25 horizontal dotted lines for writing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for handwriting practice.

A large rectangular area containing 25 horizontal dotted lines, intended for writing.

B2. Ysgrifennwch daflen i'w rhannu yn eich ysgol i berswadio disgyblion i ymuno ag unrhyw glwb o'ch dewis chi e.e. clwb darllen, clwb perfformio, clwb yn ymwneud â chwaraeon.

Yn ogystal ag ysgrifennu estynedig gellwch gynnwys gwybodaeth bytiog megis tablau/amserlenni ond peidiwch â threulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.

[20]

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.

Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.

CYNLLUN:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

TAFLEN:

A large rectangular area containing 25 horizontal dotted lines, intended for a table or notes.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for writing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines spaced evenly down the page, intended for writing.

TUDALENNAU YCHWANEGOL:

A large rectangular area containing 25 horizontal dotted lines for writing.

A large rectangular box with a solid black border, containing 25 horizontal dotted lines for writing. The lines are evenly spaced and extend across the width of the box.



TGAU

CYMRAEG IAITH

Uned 1: Llafar

Tasg 1 Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil

Tasg 2 Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp)

Cynllun Marcio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

TASG 1: CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL

	<i>Cynnwys a threfn</i>	<i>Cywair, cywirdeb iaith, a strwythur brawddegol</i>
Band 5	<p>17–20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau (yn cynnwys gwahanol agweddau ar y pwnc) yn gydlynol ac effeithiol gan ddangos treiddgarwch wrth ddehongli • Pwysleisio blaenoriaethau a manylder hanfodol wrth ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth gymhleth a heriol • Cyflwyniad sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddal sylw a chreu effaith ar y gynulleidfa 	<p>17-20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • Defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael sicr iawn ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • Gafael sicr iawn ar dreigladau • Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno a dehongli gwybodadeth a syniadau (yn cynnwys rhai agweddau ar y pwnc) yn hyderus gan bwysleisio materion arwyddocaol • Egluro syniadau mewn manylder gan ddadansoddi a gwerthuso'n bwrsasol • Addasu a threfnu cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa yn fedrus 	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • Defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson • Gafael sicr ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • Gafael sicr ar dreigladau • Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau (yn cynnwys trafod mwy nag un agwedd ar y pwnc) yn effeithiol gan gyfeirio at faterion arwyddocaol • Egluro manylion perthnasol gan ddadansoddi a gwerthuso rhywfaint • Peth eglurder wrth drefnu cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa 	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • Dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau • Mwyafrif y treigladau yn gywir • Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	<p>5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau syml (un agwedd yn bennaf) • Cyflwyno rhai manylion arwyddocaol • Peth ymgais i strwythuro cyflwyniad sy'n briodol i'r gynulleidfa 	<p>5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio peth ystod o eirfa • Dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael anghyson ar ramadeg • Amrywio brawddegau rywfaint • Treigladau yn eithaf cywir • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	<p>1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno peth gwybodaeth a/neu syniadau yn fyr • Mynegi manylion syml gydag angoaeth • Peth ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa 	<p>1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod gyfyngedig o eirfa • Gafael gyfyngedig ar ramadeg • Ystod gyfyngedig o frawddegau • Gafael gyfyngedig ar dreigladau • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0 marc	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	

Yn y dasg hon disgwylir bod ymgeiswyr yn arddangos sgiliau rhesymu geiriol. Cyfeiria "rhesymu geiriol" at dasgau meddwl mwy cymhleth megis dadansoddi, cyfuno a gwerthuso, datrys problemau trwy resymu â geiriau ac iaith.

TASG 2: YMATEB A RHYNGWEITHIO (TRAFODAETH GRŴP)

	Cynnwys a threfn	Cywair, cywirdeb iaith, a strwythur brawddegol
Band 5	<p>17-20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu'n aeddfed a threiddgar drwy gydol y drafodaeth • Trafod yn ymestynnol gyda thystiolaeth briodol i gefnogi barn • Gwrando'n astud ar hyd yr amser, gan ddangos dealltwriaeth o syniadau cymhleth drwy ofyn cwestiynau treiddgar i newid cyfeiriad trafodaeth • Pwysu a mesur safbwyntiau eraill yn ofalus ac ymateb yn fedrus a sensitif • Datblygu ac egluro syniadau wrth drafod gan ehangu a chrynhoi pan fo angen 	<p>17-20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • Defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael sicr iawn ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • Gafael sicr iawn ar dreigladau • Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu'n hyderus a phwrpasol yn ystod y drafodaeth • Trafod yn fanwl gan fynegi barn yn glir a chyflwyno tystiolaeth yn gyson • Herio, datblygu ac ymateb i'r hyn a drafodir yn feddylgar ac ystyriol, gan geisio cael eglurhad drwy ofyn cwestiynau addas • Ymateb yn briodol i safbwyntiau eraill • Datblygu syniadau i gynnal a hybu trafodaeth, gan ddangos peth gallu i ehangu a chrynhoi 	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • Defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson • Gafael sicr ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • Gafael sicr ar dreigladau • Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud cyfraniadau sylweddol i ddatblygu'r drafodaeth • Trafod a mynegi barn gyda pheth manylder a chyflwyno tystiolaeth berthnasol • Gwrando'n astud a gofalus, gan ymateb yn feddylgar i'r hyn a glywir • Ymateb i syniadau a theimladau pobl eraill gan adnabod rhagfarnau neu dueddiadau amlwg a chyfeirio at fanylion penodol • Datblygu prif syniadau yn y drafodaeth • 	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • Dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau • Mwyafrif y treigladau yn gywir • Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	<p>5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud cyfraniad penodol a pherthnasol i'r drafodaeth • Trafod a mynegi barn ar adegau allweddol • Ymateb yn gadarnhaol i'r hyn a glywir, gan gynnwys cais iddynt egluro neu roi mwy o fanylion • Caniatáu i eraill i fynegi syniadau neu farn wahanol ac ymateb yn briodol • Datblygu peth ar syniadau arwyddocaol yn y drafodaeth 	<p>5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio peth ystod o eirfa • Dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • Gafael anghyson ar ramadeg • Amrywio brawddegau rywfaint • Treigladau yn eithaf cywir • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	<p>1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud cyfraniadau byr, achlysurol a gosodiadau cyffredinol wrth drafod • Mynegi barn yn fyr ac yn syml • Ymateb i'r hyn a glywir gyda pheth diddordeb • Dilyn syniadau canolog a thrywydd posib y drafodaeth a chodi ambell gwestiwn syml • Ymgais i ddatblygu barn bersonol yn y drafodaeth 	<p>1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod gyfyngedig o eirfa • Gafael gyfyngedig ar ramadeg • Ystod gyfyngedig o frawddegau • Gafael gyfyngedig ar dreigladau • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0 marc	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	



TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

Cynllun Marcio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

DARN DARLLEN 1

- A1. Faint o Gymry oedd wedi ymuno â'r fyddin erbyn mis Mai 1915? [1]
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am :

- 100,000

- A2. Esboniwch pam mai draig goch a ddewiswyd fel cofeb yng Nghoed Mametz. [1]
(Dehongli gwybodaeth)

- Y ddraig goch yn symbol o Gymru/ cysylltu'r ddraig goch â Chymru/ am mai o Gymru roedd y milwyr yn dod

DARN DARLLEN 2

- A3. Sawl gwlad gollodd dros filiwn o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf? [1]
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am:

- Dwy wlad

Darn Darllen 2 a 3

- A4. Nodwch a yw'r datganiadau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y blwch priodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [4]
(Cyfuno a dehongli gwybodaeth)

	Cywir	Anghywir
Prydain gollodd y nifer mwyaf o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.		✓
Collodd Prydain fwy o filwyr yn ystod y rhyfel yn Irac nac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.		✓
Yr Almaen gollodd y nifer mwyaf o filwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.	✓	
Mae cyfanswm y milwyr a gollwyd yn y rhyfel yn Irac yn fwy na chyfanswm y milwyr a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.		✓
Pedair gwlad gollodd un milwr yn ystod y rhyfel yn Irac.		✓

Darn Darllen 4

A wyddoch chi?

- A5. Rhowch ddau reswm pam mae sblint Thomas yn cael ei ddefnyddio heddiw. (Casglu gwybodaeth) [1]

½ marc yr un hyd at un:

- y claf yn dioddef llai o boen
- y claf yn colli llai o waed

- A6. Tanlinellwch y gair sy'n dangos fod pelydr X yn cael ei ddefnyddio'n aml erbyn heddiw. (Dehongli ystyr) [1]

Roedd meddygon yn gallu defnyddio pelydr X i weld bwledi, shrapnel neu esgyrn wedi eu torri. Mae pelydr X yn ddull **cyffredin** heddiw o ganfod beth sy'n bod ar glaf.

- A7. Pam mae cyffuriau fel *sodiwm sitrad* a *heparin* yn bwysig? (Casglu a dehongli gwybodaeth) [1]

Un marc am:

- Maen nhw'n atal y gwaed rhag ceulo.

- A8. Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl i egluro sut mae triniaethau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ein helpu ni heddiw? [3]

(Dehongli, cyfuno ac aralleirio gwybodaeth)

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- triniaethau wedi datblygu yn ystod y rhyfel
- meddygon wedi gallu defnyddio milwyr clwyfedig i arbrofi gyda gwelliannau
- Sblint Thomas yn cael ei ddefnyddio i leihau poen a gwaedu yn y goes a hyn yn golygu bod llai yn marw
- darganfod pelydr X yn golygu bod meddygon yn gallu gweld bwledi neu shrapnel neu esgyrn wedi'u torri yn y corff a hyn yn achub bywydau
- safon rhannau artiffisial o'r corff wedi gwella cryn dipyn ers y rhyfel
- llawer o arbrofi wedi bod ar ddulliau trallwyso gwaed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt atal ceulo a storio a hyn yn achub bywydau

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol

Un marc:

- Nodi ambell driniaeth / ateb yn fras

Dau farc:

- Cyfeirio at rai triniaethau a nodi sut maen nhw'n ein helpu

Tri marc

- Cyfeirio at y mwyafrif o'r triniaethau ac egluro sut maen nhw'n ein helpu

Darn Darllen 5

Blog Bryn Tawe

- A9. Ydych chi'n meddwl bod blog Ysgol Bryn Tawe yn llwyddo i annog darllenwyr i fynd ar daith debyg? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich safbwynt. [4]
(Gwerthuso, aralleirio a dehongli gwybodaeth)

Gellir sôn am bwyntiau megis:
 uchafbwynt y Somme oedd cyfle i fynd i'r goedwig...
 anturio trwy'r coed ...sgrechian
 rhyfeddu at faint cofeb Thiepval
 amgueddfa ...oedd yn braf
 hostel ...heddwch ac ymlacio
 tywyswr oedd yn arbennig, yn llawn brwdfrydedd a hiwmor
 uchafbwynt ...bedd Hedd Wyn ...naws arbennig
 disgyblion ...wrth eu bodd ...boddi yn y siocled
 mwynhau mas draw

1 farc

Ateb y cwestiwn gan gyfeirio at ambell ddigwyddiad yn y darn darllen.

2 marc

Ateb y cwestiwn gan gynnig peth tystiolaeth o'r darn darllen, o bosibl yn dyfynnu.

3 marc

Ateb yn fanwl gan ddechrau dehongli'r cynnwys a chynnig sawl rheswm. Cyfeirio at y darn darllen yn aml gan ddyfynnu.

4 marc

Ateb yn llawn ac yn fanwl gan ddehongli'r darn yn ddeallus. Bydd yr ymgeisydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn aml ac yn dyfynnu'n gyson.

Darn Darllen 6Addasiad o'r nofel *Rhagom*

- A10. Pam wnaeth y bechgyn glosio at ei gilydd? [1]
(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

1 marc am:

- i geisio cynhesu er mwyn gallu cysgu

- A11. Yn eich geiriau eich hun nodwch pam mae Gwilym yn ei chael hi'n anodd credu eu bod yng nghanol rhyfel yn Ffrainc. [1]

(Dehongli ac aralleirio gwybodaeth)

Un marc am gyfleu:

- Oherwydd bod y milwyr yn sgwrsio fel y bydden nhw'n ei wneud gartref
- y bechgyn yn ymddwyn yn gwbl naturiol/gallu gwneud pethau arferol mewn lle mor ofnadwy

Darn Darllen 5 a 6

Blog Bryn Tawe a detholiad o'r nofel *Rhagom*

- A12. Cymharwch brofiadau disgyblion Bryn Tawe ar eu taith ysgol yn narn darllen 5 â phrofiadau'r milwyr yn y Rhyfel Byd cyntaf yn narn darllen 6. Cofiwch gyfeirio at y darnau darllen er mwyn cefnogi eich sylwadau. [6]

(Cyfuno, cymharu gwybodaeth)

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- y disgyblion ar ymweliad llawn cyffro ond cael eu gorfodi i fynd oedd hanes y milwyr
- y disgyblion wrth eu bodd yn “anturio drwy'r coed” ac “yn sgrechian fel eu bod wir ynghanol y frwydr ei hun” ond nid esgus oedd y milwyr – roedden nhw wir ynghanol y brwydro “deffrowyd y milwyr i gyd gan sŵn ffrwydro”
- dysgu am ryfel drwy ymweld â'r cofebau a'r ffosydd oedd y disgyblion tra oedd rhyfel a lladd yn brofiad erchyll a real i'r milwyr “dyna lle trawodd y bom”
- y disgyblion ar ymweliad ganol haf “a'r tywydd yn odidog” ond y tywydd yn broblem i'r milwyr “yr oerfel oedd y gelyn”
- câi'r disgyblion “heddwch ac ymlacio” yn eu hostel ond “doedd dim modd ymlacio” i'r milwyr yn oerni a pheryglon y ffosydd
- y disgyblion yn cyrraedd adref wedi blino ond llythyron o gartref oedd unig gysur y milwyr
- siopa a bwyta yn rhan o fwynhad y disgyblion ond darlun o ddioddefaint y milwyr a gawn a'u traed yn chwyddo a'r “croen yn goch a thyner”

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

1-2 farc

Cyfeirio'n fras at brofiadau yn y ddau ddarn.

3-4 marc

Cyfeirio at brofiadau yn y ddau ddarn darllen yn eithaf manwl a'u cymharu.

5-6 marc

Dehongli digwyddiadau'n gyson gan gymharu'r profiadau'n aeddfed.

GOLYGU (5 marc)

A13. Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas:

Hyd yn oed ar ôl darllen y stori ddwy waith... [1]

Un marc am ddewis:

- doedd Catrin ddim yn ei deall

(i) Nodwch pa air sydd ar goll o'r frawddeg a ganlyn drwy roi ✓ yn y blwch priodol:

Mwynhaodd Elin y parti _____ er nad oedd wedi edrych ymlaen ato. [1]

Un marc am ddewis:

- neithiwr

(ii) Nodwch pa ddau air ddylai lenwi'r bylchau yn y frawddeg a ganlyn drwy roi ✓ yn y blwch priodol:

Roeddwn yn _____ o weld fy hen ffrind eto ond doedd hi ddim yn _____ i. [1]

Un marc am ddewis:

- falch... fy nghofio

(iii) Darllenwch y brawddegau a ganlyn ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

- Roedd hynny'n rhyfedd, meddylodd.**
- Rhewodd pan welodd beth oedd o'i flaen.**
- Sylwodd Cai fod y drws ar agor.**
- Camodd i mewn i'r tŷ yn dawel.**
- Fyddai ei fam byth yn gadael y drws ar agor.**

Pa frawddeg ddylai ddod gyntaf? (Nodwch y llythyren) _____ [1]

Un marc am ddewis:

- Sylwodd Cai fod y drws ar agor.

Pa frawddeg ddylai ddod olaf? (Nodwch y llythyren) _____ [1]

Un marc am nodi:

- Rhewodd pan welodd beth oedd o'i flaen.

[5]

ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

- B1. (i) *Yn y dasg hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.*

Darllenwch y darn canlynol. Mae 3 gwall ynddo. Chwiliwch am y 3 gwall a chywirwch nhw ar y testun.

[3]

Diffodd y Goleuadau

Bydd goleuadau wedi ei diffodd ar draws Cymru heno i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd hyn yn digwydd i oleuadau ar draws y prifddinas, gan gynnwys
y Senedd a Chastell Caerdydd.

Mae pobl yn cael eu hannog i ddiffodd eu goleuadau am 11 o'r gloch heno ond gofynnir i nhw adael un golau neu gannwyll ynghynn fel symbol o obaith yn y tywyllwch.

1 marc am bob gwall a gywirwyd

eu diffodd
brifddinas
iddyn nhw

- (ii) Dyma ran o lythyr swyddogol a gafodd ei anfon gan brifathro at rieni'r ysgol. Ailysgrifennwch y darn mewn iaith ffurfiol a chywir. [2]

Dwi'n ysgrifennu atat ti i ofyn am help i sicrhau bod dy blentyn/blant yn cadw at y wisg ysgol swyddogol. Byddwn yn ddiolchgar petaet ti'n cefnogi hyn.

Disgwylir i'r ymgeisydd fod wedi sylwi ar y cywair anffurfiol a newid y darn mewn 4 lle.

Rwy'n/Ysgrifennaf atoch chi.....eich plentyn.....petaech chi...

Am 1 marc disgwylir o leiaf 2 gamgymeriad wedi'u cywiro.

Am 2 marc disgwylir 4 camgymeriad wedi'u cywiro.

[5]

ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)

	CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)	YSGRIFENNU’N GWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)
Band 5	<p>17–20 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu aeddfed a threiddgar • Ysgrifennu effeithiol sy’n cynnal diddordeb y darlennydd trwy gydol y darn • Addasu’r cywair priodol yn hyderus i’r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg • Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i’r ysgrifennu 	<p>13-15 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • Gafael sicr iawn ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • Defnydd eang o gystrawennau cywir • Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi • Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad • Gafael sicr iawn ar dreigladau • Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	<p>13-16 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu sy’n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol • Ysgrifennu sy’n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darlennydd • Addasu’r cywair yn briodol a chyson i’r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau gyda manylder sy’n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg • Ysgrifennu wedi ei strwythuro’n bwrpasol a’i drefnu’n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn 	<p>10-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • Gafael sicr ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • Defnyddio ystod dda o gystrawennau’n gywir • Defnydd cywir o ystod o atalnodi • Sillafu sicr • Gafael sicr ar dreigladau • Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 3	<p>9-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan • Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darlennydd • Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i’r pwrpas/cynulleidfa • Syniadau sy’n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu • Gwaith trefnus sy’n rhoi dilyniant a strwythur 	<p>7-9 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau • Defnyddio ystod o gystrawennau’n gywir ar y cyfan • Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi • Sillafu mwyafrif y geiriau’n gywir • Mwyafrif y treigladau yn gywir • Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir

	CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)	YSGRIFENNU’N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)
Band 2	<p>5-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Peth ysgrifennu cydlynol • Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darlennydd • Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darlennydd • Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol • Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau 	<p>4-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio peth ystod o eirfa • Gafael anghyson ar ramadeg • Amrywio brawddegau rywfaint • Peth gafael ar gystrawen • Peth gafael ar ystod o atalnodi • Sillafu yn eithaf cywir • Treigladau yn eithaf cywir • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	<p>1-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu cydlynol elfennol • Ymwybyddiaeth gyfyngedig o’r darlennydd • Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa • Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson • Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau 	<p>1-3 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod gyfyngedig o eirfa • Gafael gyfyngedig ar ramadeg • Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau • Gafael gyfyngedig ar gystrawen • Peth ymdrech i atalnodi • Sillafu rhai geiriau yn gywir • Gafael gyfyngedig ar dreigladau • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
	Dim sy’n haeddu ei wobrwyo	

Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o’r testunau darllen ac o brofiadau personol.



TGAU

CYMRAEG IAITH

UNED 3

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a
Pherwâd**

Cynllun Marcio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

DARN DARLLEN 1

- A1. Beth yw'r pris aelodaeth i blant o dan 16 oed? [1]
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- Dim (am ddim)

- A2. Ar ba ddiwrnod mae'r Ganolfan Hamdden yn cau am dri o'r gloch? [1]
(Casglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- Dydd Sul

- A3. Pa rai yw manteision ymaelodi â'r Ganolfan Hamdden yn ôl y darn darllen?
Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r sylwadau cywir.
(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

Un marc yr un, hyd at 3 marc am nodi'r canlynol:

Derbyn gostyngiad ar yr holl weithgareddau.	✓
Defnyddio holl ganolfannau Gwynedd gyda'r un cerdyn	✓
Manteisio ar wahanol adnoddau ym mhob canolfan	✓

[3]

- A4. Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch priodol
(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- ✓ rhaid i blant dan 5 oed fod yng ngofal person cyfrifol dros 16 oed [1]

- A5. Pam mae angen i'r gwarchodwr bywyd ddefnyddio ei synnwyr cyffredin i anfon
nofwyr i fannau diogel o'r pwll sydd yn addas i'w gallu? [2]
(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

Dau farc am nodi:

i hybu diogelwch yn y pwll bob amser

DARN DARLLEN 2

A6. Ers pryd y mae Gareth Bale yn chwarae i glwb Real Madrid? [1]
(Casglu gwybodaeth)

1 marc am nodi:

- Medi 1, 2013

A7. Ble ganwyd Gareth Bale? [1]
(Casglu gwybodaeth)

1 marc am nodi:

- Caerdydd

A8. Beth yw cyflog blwyddyn Gareth Bale gyda Real Madrid? [1]
(Casglu gwybodaeth)

- £15 miliwn y flwyddyn

DARN DARLLEN 3: Pêl-droedwyr yn cael gormod o arian?

A9. Mae rhai o'r sylwadau sydd yn y darn darllen, yn amlwg naill ai o blaid cyflogau uchel pêl-droedwyr, neu yn eu herbyn. Dosbarthwch nhw o dan y penawdau **O blaid** ac **Yn erbyn** drwy roi ✓ yn y golofn gywir. [5]
Hanner marc yr un am bob sylw yn y golofn gywir hyd at 5 marc.
(Dehongli a dosbarthu gwybodaeth)

O BLAID ✓	YN ERBYN X
1. Mae pêl-droedwyr yn hyfforddi'n hynod o galed bob wythnos a phob diwrnod weithiau	1. Mae cymaint o bobl yn dioddef oherwydd tloedi...mae'n anodd meddwl fod un person yn cael cymaint o arian
2. Maen nhw'n teithio o gwmpas y byd i chwarae gemau yma ac acw – mae hyn yn flinedig iawn	2. Mae pobl fel meddygon a pheirianwyr yn gwario llawer o arian i gael graddau, ac yn gweithio oriau hirion, dim ond i gael eu talu mewn blwyddyn yr hyn mae rhai pêl-droedwyr yn ei gael mewn ychydig wythnosau
3. Maen nhw'n rhoi'r gorau i chwarae tua 30 oed fel arfer	3. Mae pêl-droedwyr yn cael eu talu ormod am gicio pêl i rwyd, pan mae milwyr bob dydd yn colli eu bywydau yn amddiffyn eu gwlad ...
4. Mae'r swm enfawr mae pêl-droedwyr yn ei dderbyn yn ysbrydoliaeth fawr iddyn nhw berfformio ar eu gorau	4. Dylai pêl-droedwyr roi esiampl well i bobl ifanc!
5. Hyd yn oed yn ystod gwyliau rhaid iddyn nhw ymarfer	
6. Gall eu gyrfa ddod i ben yn sydyn unrhyw amser oherwydd anaf	

DARN DARLLEN 4:

- A10. Beth yw barn yr awdur am obeithion Brasil o ennill Cwpan y Byd? Rhowch resymau dros eich ateb.
(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth) [3]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

Mae'n credu bod gobeithion Brasil yn uchel oherwydd:
Mae'r gêm yn boblogaidd iawn yno.
Mae'r wlad wedi cynhyrchu criw talentog o chwaraewyr.
Mae arian mawr wedi'i wario ar y gêm yno.
Mae ennill yn uchelgais iddyn nhw.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

DARN DARLLEN 5:

Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen

- A11. Pa air sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sioc wrth i'r byd wyllo'r Almaenwyr yn rhwygo tîm Brasil yn ddarnau?
(Dehongli ac adnabod geiriau)

- gegrwth

[1]

DARN DARLLEN 4 a 5:

**Brasil: gwlad o ddau hanner
Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen**

- A12. Mae Darn Darllen 4 a 5 yn sôn am Gwpan y Byd. Cymharwch y ddau ddarn gan ystyried
- agwedd yr awduron at eu pwnc
 - y modd y maen nhw'n cyflwyno'u gwybodaeth ac yn trafod y pwnc

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.
(Dadansoddi, dehongli ac egluro a chymharu dau destun)

[10]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

<p>Agwedd optimistaidd tuag at obeithion Brasil yng Nghwpan y Byd.</p> <p>Agwedd feirniadol tuag at yr arian mawr a werir ar bêl-droed tra bod tlodi enbyd mewn rhannau o'r wlad.</p> <p>Gogwydd wleidyddol.</p> <p>Erthygl sy'n agor ychydig yn anffurfiol â chwestiwn.</p> <p>Paragraffu clir a threfnus ond trobwynt a newid cywair er mwyn pwysleisio problemau'r wlad.</p> <p>Defnyddio ffigurau/ystadegau i gyfleu'r sefyllfa druenus.</p> <p>Rhestru'r problemau – dim dŵr glân, trydan na thechnoleg.</p> <p>Brawddeg drawiadol i gloi – defnydd effeithiol o'r gair "uchelgais".</p>	<p>Agwedd o sioc bod Brasil wedi colli cyfle.</p> <p>Agwedd feirniadol tuag at chwarae Brasil.</p> <p>Canolbwyntio ar y chwarae ar y cae.</p> <p>Erthygl sy'n agor ychydig yn fwy ffurfiol trwy ddefnyddio'r amheronol.</p> <p>Paragraffu clir a threfnus – paragraff am chwarae Brasil a pharagraff am yr Almaen.</p> <p>Defnyddio geiriau cryfion – crasfa, cywilydd, i gyfleu'r sioc.</p> <p>Ymdrech i fod yn fwy graffig – berf drosiadol – "rhwygo'n ddarnau", ansoddair – "y byd yn gegrwth".</p> <p>Brawddeg drawiadol i gloi – defnydd effeithiol o'r gair "cysur".</p>
---	---

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

0 marc

os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

1-2 marc

peth ymdrech i gymharu'r ddau destun yn fras

3-4 marc

ymdrech eithaf da i gymharu'r ddau destun gyda rhai sylwadau perthnasol

5-6 marc

cymharu'r ddau destun yn dda gyda sylwadau perthnasol am agwedd yr awduron a'r modd maent yn cyflwyno'u gwybodaeth – cynnwys ambell enghraifft/dyfyniad

7-8 marc

cymharu'r ddau destun yn dda iawn agwedd yr awduron a'r modd maent yn cyflwyno'u gwybodaeth gan gynnig rhai dyfyniadau /cyfeiriadau at y testun

9-10 marc

cymharu'r ddau destun yn aeddfed – yn amlwg wedi deall agwedd yr awduron ac yn egluro sut maent yn cyflwyno'u gwybodaeth, gan gynnig enghreifftiau/dyfyniadau i gefnogi

Cwestiwn B1 ac B2 (20 marc)

	CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)	YSGRIFENNU’N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)
Band 5	<p>9-10 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu aeddfed a threiddgar • Ysgrifennu effeithiol sy’n cynnal diddordeb y darlennydd trwy gydol y darn • Addasu’r cywair priodol yn hyderus i’r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg • Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i’r ysgrifennu 	<p>9-10 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • Gafael sicr iawn ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • Defnydd eang o gystrawennau cywir • Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi • Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad • Gafael sicr iawn ar dreigladau • Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
Band 4	<p>7-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu sy’n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol • Ysgrifennu sy’n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darlennydd • Addasu’r cywair yn briodol a chyson i’r pwrpas/cynulleidfa • Datblygu syniadau gyda manylder sy’n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg • Ysgrifennu wedi ei strwythuro’n bwrpasol a’i drefnu’n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn 	<p>7-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • Gafael sicr ar ramadeg • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • Defnyddio ystod dda o gystrawennau’n gywir • Defnydd cywir o ystod o atalnodi • Sillafu sicr • Gafael sicr ar dreigladau • Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid

	CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)	YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)
Band 3	<p>5-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan • Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darlennydd • Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa • Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu • Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur 	<p>5-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau • Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan • Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi • Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir • Mwyafrif y treigladau yn gywir • Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
Band 2	<p>3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Peth ysgrifennu cydlynol • Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darlennydd • Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darlennydd • Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol • Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau 	<p>3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio peth ystod o eirfa • Gafael anghyson ar ramadeg • Amrywio brawddegau rywfaint • Peth gafael ar gystrawen • Peth gafael ar ystod o atalnodi • Sillafu yn eithaf cywir • Treigladau yn eithaf cywir • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
Band 1	<p>1-2 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu cydlynol elfennol • Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darlennydd • Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa • Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson • Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau 	<p>1-2 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod gyfyngedig o eirfa • Gafael gyfyngedig ar ramadeg • Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau • Gafael gyfyngedig ar gystrawen • Peth ymdrech i atalnodi • Sillafu rhai geiriau yn gywir • Gafael gyfyngedig ar dreigladau • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	